Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

# Comisiwn y Cynulliad
# Assembly Commission

**NAFWC 2012**
**Cofnodion cyfarfod 12 Gorffennaf 2012**
**Dyddiad:** 12 Gorffennaf 2012
**Amser:** 11.00 – 12.30
**Lleoliad:** Swyddfa'r Llywydd

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Gorffennaf 2012

**Yn bresennol:**
Y Llywydd, Cadeirydd
Peter Black AC
Angela Burns AC
Sandy Mewies AC
Rhodri Glyn Thomas AC

**Swyddogion yn bresennol:**
Claire Clancy, Prif Weithredwr a Chlerc
Craig Stephenson, Pennaeth Gwasanaeth Cymorth i'r Comisiwn ac i'r Aelodau
Steve O'Donoghue, Pennaeth Adnoddau'r Cynulliad a Chyfarwyddwr Cyllid (eitemau 2 a 3)
Nicola Callow, Pennaeth Cyllid (eitemau 2 a 3)
Ross Davies, Rheolwr Cydraddoldeb (eitem 4)
Carys Evans, Prif Ysgrifennydd y Comisiwn

**Eraill:**
David Melding AC, y Dirprwy Lywydd
Mair Barnes, Cynghorydd Annibynnol

**AC(4)2012(6)**
**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Gorffennaf 2012**

## 1. Cyflwyniad y Cadeirydd

Bydd Dianne Bevan, y Prif Swyddog Gweithredu, yn ymddeol ddiwedd y tymor hwn. Dymunodd y Comisiynwyr yn dda i Dianne ar ei hymddeoliad gan ddiolch iddi am ei chyfraniad i waith y Cynulliad.

**Datganiadau o fuddiant**
Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

## 2. Cyllideb ddrafft 2013-14

Cadarnhaodd y Comisiynwyr eto eu hymrwymiad i weithio o fewn y gwariant dangosol ar gyfer 2013-14 a nodwyd yn nogfen gyllidebol y llynedd.

Mae disgwyl y bydd y Comisiwn yn cytuno ar y gyllideb yn ei gyfarfod ar 27 Medi, cyn ei gosod gerbron y Cynulliad ar 28 Medi.

Cyfeiriodd y Comisiynwyr at y ddogfen sydd ar waith gan ddiolch i'r swyddogion am eu gwaith ar gyllideb 2013-14.

**Camau i'w cymryd:** Bydd swyddogion yn parhau i weithio ar ddogfen y gyllideb yn ystod toriad yr haf, gan gynnwys y materion a drafodwyd yn y cyfarfod ynddi.

## 3. Adroddiad Blynyddol Pwyllgor Archwilio Comisiwn y Cynulliad

Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol Pwyllgor Archwilio Comisiwn y Cynulliad ar gyfer blwyddyn ariannol 2011-12 i'r Comisiynwyr i'w nodi. Mae'n ofynnol i'r Pwyllgor Archwilio ddarparu Adroddiad Annibynnol i'r Comisiwn, ac i'r Swyddog Cyfrifyddu, yn crynhoi ei waith yn ystod y flwyddyn, ar yr un pryd ag y mae cyfrifon blynyddol y Comisiwn yn cael eu gosod gerbron y Cynulliad.

Mae'r adroddiad yn nodi bod lefelau gwarantu yn y Comisiwn yn gyffredinol dda, â chyfle i wella mwy mewn rhai meysydd a chael gwell effeithlonrwydd wrth reoli a defnyddio rheolyddion. Bydd y Pwyllgor yn parhau i roi sylw penodol i'r meysydd hyn yn 2012-13 a sicrhau bod y rhaglen archwilio mewnol yn cefnogi hyn.

Noddodd y Comisiynwyr yr adroddiad.

Rhoddodd Claire Clancy grynodeb ar lafar o waith y Pwyllgor Archwilio, yn dilyn ei gyfarfod ar 5 Gorffennaf a chadarnhau bod y

Pwyllgor Archwilio wedi argymell ei bod hi, fel Swyddog Cyfrifyddu, yn llofnodi cyfrifon blynyddol y Comisiwn. Gwnaed hyn, ac roedd disgwyl i Archwilydd Cyffredinol Cymru eu llofnodi a'u cyflwyno yn ystod y dyddiau nesaf.

**4. Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol 2011-12**

Mae Comisiwn y Cynulliad yn llunio Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ar y cynnydd a wnaed ar y camau a nodir yng Nghynllun Cydraddoldeb 2008-2012. Mae'r adroddiad yn rhoi trosolwg o'r gwaith y mae staff y Comisiwn wedi ei wneud i hyrwyddo cydraddoldeb rhwng mis Ionawr 2011 a mis Mawrth 2012.

Mae uchafbwyntiau'n cynnwys hyrwyddo cymryd rhan mewn democratiaeth drwy ymgyrch 'Pleidleisiwch 2011'; datblygu ffyrdd o ymgysylltu ag amrywiol grwpiau ledled Cymru; cefnogi rhwydweithiau staff; dod yn rhif 20 ym mynegai cydraddoldeb Stonewall 2012; cynnal amrywiaeth o ddigwyddiadau ac arddangosfeydd gan grwpiau amrywiol, a datblygu taflenni gwybodaeth i addysgu Aelodau am eu cyfrifoldebau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Cymeradwyodd y Comisiynwyr waith y Tîm Cydraddoldeb a nodi'r llwyddiannau niferus yn ystod y cyfnod yr adroddwyd amdano.

Cytunwyd y byddai rhai newidiadau i'r adroddiad, gan gynnwys amlygu'r llwyddiannau mwyaf arwyddocaol yn fwy eglur a lleihau hyd cyffredinol y ddogfen, cyn ei chyhoeddi.

**5. Y rhaglen dreigl**

Cynhelir cyfarfod nesaf y Comisiwn ddydd Iau 27 Medi.  Bydd yr eitemau ar yr agenda yn cynnwys y Gyllideb Ddrafft 2013-14

**6. Unrhyw fater arall**

Bydd y Comisiynwyr yn cynnal cyfarfod anffurfiol ar 2 Awst.

Cytunodd Claire Clancy i rannu'r ohebiaeth ddiweddaraf ag Atos â'r Comisiynwyr.

**Yr Ysgrifenyddiaeth**
**Gorffennaf 2012**